# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (Y BELL TRWY TEAMS)

| **Aelodau'n bresennol:** | **Dydd Mawrth, 31 Awst 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | D.Keogh, R.Mizen, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, S.Renkes, M.Protheroe a/ac R.L.Taylor |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod S.E.Freeguard (Port Talbot) a/ac S.Lynch (Aberavon) |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Griffiths, S.Ball, J.Griffiths, S.Jenkins, S.Evans a/ac T.Davies |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, 27 Gorffennaf (Arbennig) a 10 Awst 2021.

2. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

3. **TAFLEN DDIWYGIADAU**

Nodyn: Dosbarthwyd taflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif: P2021/0226 cyn y cyfarfod, yr oedd y Cadeirydd wedi rhoi amser digonol i'r aelodau ei darllen. Mewn perthynas ag eitem y cais ar yr agenda a gyhoeddwyd, rhoddodd y Cadeirydd ganiatâd i'w dosbarthu/hystyried ar frys yn ystod y cyfarfod heddiw oherwydd y

rhesymau a'r sefyllfa benodol lle nad oedd am ohirio unrhyw geisiadau ac i sicrhau bod aelodau'n ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfarfod.

4. **CAIS RHIF P2021/0226 - LIDO AFAN**

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cais hwn (adeiladu 137 o anheddau a gwaith ffyrdd, parcio, tirlunio ac isadeiledd cysylltiedig ar hen Safle Lido Afan a thir i'r de-ddwyrain, yn gyfagos i Heol Tywysoges Margaret) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2021/0226 yn unol ag argymhellion y Swyddogion, a'r amodau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

5. **CAIS RHIF P2021/0567 - 4 STRYD DALRYMPLE,**

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cais hwn (newid defnydd o Dŷ Annedd (C3) i gartref plant (C2) yn 4 Stryd Dalrymple, Aberafan, Port Talbot, SA12 6DY) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelod ward lleol yn bresennol i roi ei sylwadau.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif 2921/0567 yn unol ag argymhellion y Swyddogion, a'r amodau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **CAIS RHIF P2021/0584 - 49 HEOL TALBOT**

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Newid Defnydd y Llawr Cyntaf a'r Ail Lawr o Swyddfeydd i Lety Lloches Brys yn 49 Heol Talbot, Port Talbot, SA13 1HN) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelod ward lleol yn bresennol i roi ei sylwadau.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2021/0584 yn unol ag argymhellion y Swyddogion, ac yn amodol ar gytundeb cyfreithiol Adran 106 a'r amodau a

nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**CADEIRYDD**